**Rhun ap Iorwerth AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Ein cyf/Our ref: MA/FM/1298/26

**Zaynab Akbar AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Chyfiawnder Cymdeithasol
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

17 Gorffennaf 2026

Annwyl Zaynab,

Ysgrifennaf i roi gwybod ichi fy mod wedi penodi pedwar aelod newydd i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i lenwi'r swyddi gwag ar gyfer cynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr:

1. Sarah Davies (Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol Unite the Union) yn cymryd lle Peter Hughes;
2. Nicola Williams (Cyfarwyddwr Gweithredol RCN) yn cymryd lle Helen Whyley;
3. Laura Doel (Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru) yn cymryd lle Shavannah Taj; and
4. Yr Athro Elwen Evans (Cadeirydd, Prifysgolion Cymru) yn cymryd lle'r Athro Wendy Larner.

Rwy'n edrych ymlaen at gydweithio â nhw a pharhau â gwaith pwysig y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol.

Byddant yn ymuno ag aelodau presennol y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol:

**Cynrychiolwyr Gweithwyr**
Ruth Brady, GMB
Neil Butler, Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau
Gareth Lloyd,
Undeb Prifysgolion a Cholegau
Jess Turner, Unsain
Mike Walker, Undeb Gweithwyr Siopau, Dosbarthu a Gwaith Perthynol
Sian Boyles, Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol

**Cynrychiolwyr Cyflogwyr**
Pippa Britton, y Sector Gwirfoddol
Aled Edwards, Sector Cyhoeddus
Joshua Miles, Busnes
Russell Greenslade, Busnes
Y Cynghorydd Anthony Hunt, Llywodraeth Leol
Nicola Prygodzicz, Iechyd
Janis Richards, Busnes
Kathryn Robson, Addysg Bellach

Welsh Government Offices, Cathays Park,
Cardiff. CF10 3NQ
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,
Caerdydd. CF10 3NQ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Prif.Weinidog@llyw.cymru
Correspondence.First.Minister@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Sefydlodd Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, ac rwyf yn ei gadeirio yn rhinwedd fy swydd  fel Prif Weinidog . Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat, a'r trydydd sector yng Nghymru.

Rwy'n credu'n gryf mewn Partneriaeth Gymdeithasol fel ffordd effeithiol o weithio ar y cyd ag undebau llafur a chyflogwyr i fynd i'r afael â heriau cymhleth a chyflawni ein nodau cyffredin.  Mae'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol yn dangos gwerth y dull hwn trwy helpu i sicrhau nad yw atebion i broblemau'n cael eu cyflawni ar draul hawliau a bywoliaeth gweithwyr nac ar draul darparu gwasanaethau.

Yn gywir,



**Rhun ap Iorwerth**